

Nodiadau Astudiaeth Feiblaidd: Bod yn Ddisgybl 2

Y Ddisgyblaeth – Luc 8

Gweddi: Dad nefol, fel pobl i Ti a disgyblion i Iesu Grist, sylweddolwn na allwn wneud hebot Ti. O ran corff, enaid ac ysbryd, yr ydym yn byw ar yr hyn yr wyt Ti yn ei ddarparu ar ein cyfer. Rho i ni fwyd ysbrydol da yn awr i'n cryfhau ac i'n cadw'n iach. Fe ofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, ein Gwaredwr. Amen.

Darllen: Luc pennod 8, adnodau 1-3, (tud. 1249 yn beibl.net)

Croesgyfeiriadau: Mathew 6: 1-4 ac 19-21, Mathew 18: 1-5, Luc 8: 22-25, Luc 11: 1-4, Actau 4: 1-4.

Cyflwyniad: Er mwyn bod yn ddisgyblion da i Iesu Grist, yr oedd yn rhaid i'r rhai oedd wedi eu galw ei ddilyn, a derbyn ei 'ddisgyblaeth'. Yr oeddent i ddysgu syniadau newydd, a phatrymau newydd o feddwl, ymateb a gweithredu. Ni allent wneud hyn trwy fod yn ei gwmni unwaith yr wythnos. Yr oedd gofyn iddynt fod yn ei gwmni yn gyson er mwyn iddynt fedru gwrandao ar yr hyn yr oedd yn ei ddweud, a sylwi ar yr hyn yr oedd yn ei wneud. Felly yr oeddent yn dysgu.

Yn aml iawn, byddwn ni yn tybio ein bod yn gwybod beth sy'n iawn a beth sy'n gywir. I'r disgybl, beth sy'n iawn ac yn gywir yng ngolwg ei Athro sy'n bwysig, a dyna pam mae Cristnogion i ddarllen ac astudio'r Beibl yn aml, a threulio amser mewn cymdeithas â Iesu ac â'r Tad nefol mewn gweddi. Ni fyddwn byth yn cyrraedd y nod o wybod a deall popeth sydd yn y Beibl, ond dyna'r hyn y dylem anelu ato. Ac mae'n rhywbeth i'w wneud yng nghwmni pobl eraill. Nid damwain oedd bod Iesu wedi galw deuddeg disgybl.

Prin y gallwn ni ddatblygu'n ddisgyblion da trwy ddim ond mynd i'r capel ar y Sul! Mae bod yn ddisgybl i Iesu yn rhywbeth sy'n gorfod perthyn i'n bywyd bob dydd. Nid yw'n hawdd bob amser, ac nid yw 'meddwl Crist' bob amser yn gwneud i ni deimlo'n esmwyth. Er hynny, gwybod 'meddwl Crist' (gweler 1 Corinthiaid 2: 16) yw'r her.

Cwestiynau:

1. Sut mae sicrhau ein bod yn dod o dan y ddisgyblaeth honno sy'n mynd i'n helpu ni i ddatblygu'n ddisgyblion da i Iesu Grist?
2. Sut mae'n bosibl i 'feddwl Crist' wneud i ni deimlo yn anesmwyth?
3. Pam y mae bod yn ddisgybl i Iesu Grist yng nghwmni pobl eraill yn bwysig? Beth yw'r peryglon os bydd pobl yn mynnu aros ar eu pennau eu hunain?

Gweddi: Unwaith eto, O Dad, yr ydym wedi bod yn edrych ar ddarnau o'r Beibl, ac wedi dysgu ohonynt. Gwna ni yn bobl sy'n 'ddisgyblion bob dydd' i Iesu Grist, yn hytrach nac yn 'ddisgyblion penwythnos' yn unig. Rho i ni ddysgu oddi wrth Iesu drwy'r amser fel y bydd ei feddwl ynom. Clyw ni yn dy drugaredd. Amen.